



CYNLLUN ORIAU FFLLECSI

1. Oriau Agor Swyddogol Cwmni CYNNAL

Bydd swyddfeydd Cwmni CYNNAL ar agor rhwng 8:30am a 4:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac fe ddylid sicrhau bod aelod o'r staff ar gael i ddelio ag ymholiadau ym mhob uned yn ystod yr oriau yma.

2. Egwyddorion Sylfaenol y Cynllun Oriau Fflecsi

Dan y cynllun fflecsi, mae wythnos waith gyfystyr â 37 awr. Hyd diwrnod gwaith arferol yw 7 awr 24 munud, a 3 awr 42 munud yw hyd hanner diwrnod.

Bydd y staff yn cofnodi yr oriau maent yn ei weithio rhwng 8:00am a 6:00pm. Fel arfer, ni fydd unrhyw amser a weithir y tu allan i'r oriau yma yn cyfrif tuag at y Cynllun Fflecsi.

Rhaid i'r staff fod wrth eu gwaith rhwng 9:30am – 12:00pm, ac yna rhwng 2:00pm – 4:00pm.

Rhaid i bawb gymryd o leiaf hanner awr i ginio, ond nid mwy na 2 awr, a hynny rhwng 12:00pm a 2:00pm.

Mae gan y staff hyblygrwydd i weithio unrhyw oriau a ddymunant yn ystod y cyfnodau 8:00am – 9:30am, ac yna rhwng 4:00pm – 6:00pm, yn amodol i ofynion penodol y Cwmni (e.e. presenoldeb aelod o staff yn yr unedau i ateb y ffôn...).

Egwyddor sylfaenol y cynllun yw y dylai gofynion y Cwmni gael blaenoriaeth. I sicrhau hyn, dylai staff ymgynghori gyda'u rheolwyr llinell cyn cymryd amser fflecsi o'u gwaith. Yn yr un modd, disgwylir i staff gydweithio i sicrhau bod presenoldeb yn unedau / swyddfeydd y Cwmni yn ystod yr oriau agor swyddogol.

O reidrwydd, bydd rhai swyddi ar sefydliad CYNNAL y tu allan i ddarpariaeth y Cynllun.

3. Casglu Oriau Fflecsi

Mae'r broses casglu oriau fflecsi yn gweithio fel a ganlyn :

- Gweithredir mewn cyfnodau fflecsi o 4 wythnos ar y tro.
- Bydd y staff yn cofnodi eu horiau yn ddyddiol, yn cael cyfanswm eu horiau am yr wythnos, ac yn trosglwyddo unrhyw gredyd/dyled i'r wythnos ganlynol.
- Ar derfyn y cyfnod fflecsi, bydd y credyd neu ddyled yn cael eu trosglwyddo i'r cyfnod nesaf.
- Ni ellir trosglwyddo mwy na 5 diwrnod fflecsi (h.y. 37 awr o gredyd). Ni ellir trosglwyddo mwy na 7.24 o ddyled o un cyfnod i'r llall.
- Pe bae gan staff fwy na 37 awr yn gredyd ar ddiwedd y cyfnod fflecsi, byddant yn "colli" yr amser ychwanegol.
- Gellir cymryd yr oriau a drosglwyddir fel amser i ffwrdd, unai fel diwrnod fflecsi cyfan neu fel hanner diwrnod fflecsi.
- Ni ellir cymryd amser fflecsi i ffwrdd onibai bod yr oriau yn gredyd ar **ddiwedd** y cyfnod fflecsi blaenorol.

4. Cofnodi Oriau

Cofnodir yr oriau unai ar daenlen neu system gyfrifiadurol, yn dibynnu ar eich lleoliad gwaith a dylid gwneud hyn yn ddyddiol.

Os y cymerir amser fflecsi i ffwrdd, cofnodir **DIM** gyferbyn â'r diwrnod/bore/pnawn. Cofnodir gwyliau blyneddol, neu absenoldebau awdurdodedig fel 7.24 neu 3.42.

Bydd unrhyw amser awdurdodedig o'r gwaith (e.e. ymweliadau cling, deintyddol...) yn cael eu cynnwys fel rhan o'r oriau gwaith.

Os yw staff yn mynd allan o'u canolfan waith dros amser cinio, dylid clocio'r amser gadael a'r amser dychwelyd.

5. Camddefnyddio'r Cynllun

Ystyrir bod unrhyw gamddefnydd bwriadol o'r Cynllun a'r ddarpariaeth i gasglu oriau fflecsi yn achos difrifol, ac fe ddelir ag unrhyw achos yn unol â threfn disgyblu'r Cwmni.